**CBAC Lefel 2 – Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: Craidd**

# Uned 004 – Diogelu Plant

## Trosolwg o Uned 004

Yn Uned 004, gwnaethom ganolbwyntio ar **ddiogelu plant**, deall **e-ddiogelwch**, ac adnabod arwyddion **camdriniaeth** ac **esgeulustod**. Gwnaethom archwilio **deddfwriaeth a pholisïau diogelu** allweddol y DU, ynghyd â rolau amrywiol **asiantaethau**. Roedd ein hastudiaeth yn cynnwys ein cyfrifoldebau mewn diogelu, megis **eiriolaeth**, cynnal **perthnasoedd priodol**, a gweithredu **arferion plentyn-ganolog**.

Dysgom hefyd am **ymateb, cofnodi ac adrodd pryderon**, yn ogystal â deall **'chwythu'r chwiban'** a therfynau **cyfrinachedd**. Amlygodd yr uned ffactorau sy'n arwain at **niwed**, megis **profiadau niweidiol yn ystod plentyndod** a **meithrin perthynas amhriodol**, ac adolygodd adroddiadau ar **fethiannau difrifol i amddiffyn** unigolion.

### DD1: Deall pwrpas deddfwriaeth, polisïau cenedlaethol a Chodau Ymddygiad ac Ymarfer Proffesiynol o ran diogelu plant.

- Ydw i'n deall beth yw ystyr **'diogelu'** ac ydw i'n gallu egluro pwysigrwydd **'e-ddiogelwch'**?
- Ydw i'n gallu adnabod y prif gategorïau o **gamdriniaeth** ac **esgeulustod** a'r arwyddion a'r symptomau cyffredin sy'n gysylltiedig â nhw?
- Ydw i'n cydnabod sut mae **fframweithiau deddfwriaethol** yn sail i'r hawliau sydd gan blant i gael eu hamddiffyn rhag **niwed, camdriniaeth** ac **esgeulustod**?
- Ydw i'n ymwybodol o'r **ddeddfwriaeth allweddol, y polisïau cenedlaethol**, a'r **Codau Ymddygiad** sy'n gysylltiedig â diogelu, ac a ydw i'n deall **rolau gwahanol asiantaethau** yn y cyd-destun hwn?
- Ydw i'n gallu egluro sut y dylid **cofnodi** a **rhoi gwybod** am **bryderon** neu **ddigwyddiadau** sy'n ymwneud â diogelu yn briodol?

### DD2: Deall sut i weithio mewn ffyrdd sy'n diogelu plant rhag niwed, cam-drin ac esgeulustod.

- Ydw i'n deall **rôl** a **chyfrifoldebau** gweithiwr blynyddoedd cynnar a gofal plant o ran **diogelu**, a phwysigrwydd **'eiriolaeth'** yn y cyd-destun hwn?
- Ydw i'n cydnabod pwysigrwydd sefydlu **ymddiriedaeth** a **pherthynas** â phlant a'u teuluoedd/gofalwyr ac arwyddocâd **ymarfer plentyn ganolog o ran diogelu**?
- Ydw i'n gallu egluro sut i weithio mewn ffyrdd sy'n **cynnal hawliau plant** a'u teuluoedd/gofalwyr, gan sicrhau eu bod yn gallu **mynegi pryderon heb ofn**?
- Ydw i'n gwybod **sut** i sicrhau bod plant a'u teuluoedd/gofalwyr yn ymwybodol o sut i gadw eu hunain yn **ddiogel**, gan gynnwys y **risgiau sy'n gysylltiedig** â **chyfryngau cymdeithasol** a **defnydd o'r rhyngrwyd**?
- Ydw i'n gallu adnabod **ffyrdd o weithio** sy'n cadw fy hun a phlant yn **ddiogel** mewn lleoliadau blynyddoedd cynnar a gofal plant?



CBAC Lefel 2 – Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: Craidd

# Uned 004 – Diogelu Plant

## Trosolwg o Uned 004

Yn Uned 004, gwnaethom ganolbwyntio ar **ddiogelu plant**, deall **e-ddiogelwch**, ac adnabod arwyddion **camdriniaeth** ac **esgeulustod**. Gwnaethom archwilio **deddfwriaeth a pholisïau diogelu** allweddol y DU, ynghyd â rolau amrywiol **asiantaethau**. Roedd ein hastudiaeth yn cynnwys ein cyfrifoldebau mewn diogelu, megis **eiriolaeth**, cynnal **perthnasoedd priodol**, a gweithredu **arferion plentyn-ganolog**.

Dysgom hefyd am **ymateb, cofnodi ac adrodd pryderon**, yn ogystal â deall **'chwythu'r chwiban'** a therfynau **cyfrinachedd**. Amlygodd yr uned ffactorau sy'n arwain at **niwed**, megis **profiadau niweidiol yn ystod plentyndod** a **meithrin perthynas amhriodol**, ac adolygodd adroddiadau ar **fethiannau difrifol i amddiffyn** unigolion.

## DD3: Deall y ffactorau, y sefyllfaoedd a'r camau gweithredu a all arwain at niwed, cam-drin neu esgeulustod neu gyfrannu atynt.

- Ydw i'n deall pam mae rhai plant mewn **mwy o berygl** o **niwed**, a sut mae **profiadau niweidiol yn ystod plentyndod** yn cyfrannu at **gamdriniaeth**?
- A allaf nodi **gweithredoedd** neu **sefyllfaoedd** a allai arwain at neu gynyddu'r risg o **niwed** neu **gamdriniaeth**?
- Ydw i'n adnabod arwyddion **cam-drin domestig** ac yn deall **y gwahanol fathau o fwlio** a'u **heffaith**?
- Ydw i'n gallu egluro pam nad yw unigolion, gan gynnwys plant ac oedolion, **yn datgelu** camdriniaeth,?
- Ydw i'n gwybod nodweddion cyffredin **ymddygiad tramgwyddwyr** a **meithrin perthynas amhriodol**?
- Ydw i'n deall gwerth **dysgu** o **adolygiadau** ac **adroddiadau** am **fethiannau difrifol** i ddiogelu unigolion rhag **niwed, camdriniaeth** neu **esgeulustod**?

## DD4: Deall sut i ymateb, cofnodi a rhoi gwybod am bryderon, datgeliadau neu honiadau sy'n ymwneud â diogelu.

- Ydw i'n gwybod sut i **ymateb** i **niwed a amheuir** neu **a ddatgelir** a **pha gamau i'w hosgoi**?
- A allaf ddiffinio **ffiniau cyfrinachedd** ac egluro **'chwythu'r chwiban'** mewn cyd-destun diogelu?
- Ydw i'n deall pwysigrwydd **rhoi gwybod am bryderon y**nghylch niwed a beth ddylid rhoi gwybod amdano a'i **gofnodi**?
- Ydw i'n gallu adnabod **rhwystrau i godi pryderon** posibl a **sut i fynd i'r afael â nhw**?
- Ydw i'n gwybod sut i **gofnodi gwybodaeth** yn gywir a deall y gwahaniaeth rhwng **ffaith, barn a dyfarniad**?
- Ydw i'n gallu esbonio'r **camau** i'w cymryd os oes **pryderon parhaus** neu os **na** eir i'r afael â **materion ar ôl rhoi gwybod** amdanynt?

